



Ein cyf/Our ref MA/P/LG/0921/19

Syr David Henshaw  
Cadeirydd  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
CAERDYDD  
CF24 OTP

13 Mawrth 2019

Dear David

**Cyfoeth Naturiol Cymru: Cylch Gwaith ar gyfer 2019-20**

Eir ati yn y llythyr hwn i amlinellu cylch gwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2019-20.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r tîm cyfan yn Cyfoeth Naturiol Cymru am ei waith caled yn ystod y flwyddyn a aeth heibio i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n effeithiol ledled Cymru. Mae'r gwaith hwnnw wedi esgor ar ganlyniadau pwysig ac amrywiol, gan gynnwys amddiffyn cymunedau a busnesau rhag perygl llifogydd, gwella bioamrywiaeth, helpu i ddatblygu ynni adnewyddadwy, sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd, a rheoleiddio effeithiol. Rwyf yn cydnabod bod y sefydliad wedi wynebu heriau hefyd ym maes llywodraethu a datblygu a'ch bod wedi bod yn mynd i'r afael â'r rheini ers ichi gael eich penodi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben craidd CNC o hyd yw mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i fodloni dyletswyddau statudol wrth arfer ei swyddogaethau. Mae gan CNC swyddogaethau allweddol a dyletswyddau rheoleiddio y mae'n rhaid iddo eu cyflawni mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y Trydydd Sector a chyirff eraill.

Rwyf yn falch bod fy swyddogion wedi cydweithio'n agos â chi a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod 2018 i baratoi canllawiau statudol ar eich diben cyffredinol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r canllawiau hynny hefyd yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r dyletswyddau sydd arnoch o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwyf yn rhoi pwys a gwerth mawr ar y cyfraniad y mae CNC yn parhau i'w wneud i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gan edrych ymlaen at flwyddyn 2019-20, mae nifer o feysydd lle bydd yn bwysig i CNC wneud gwaith newydd er mwyn gwireddu ei ddiben craidd. Rhaid i waith CNC gyd-fynd â materion polisi allweddol, boed yn rhai newydd neu'n rhai sydd wrthi'n cael eu datblygu, gan adlewyrchu blaenoriaethau Prif Weinidog Cymru, a rhaid i'r gwaith hwnnw gynnwys bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi er mwyn cyflawni rhaglen gyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod CNC yn gwneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer y cyfnod pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r llythyr hwn yn pwysleisio'r materion allweddol hynny.

Bydd y flwyddyn hon yn allweddol ar gyfer datblygu **Datganiadau Ardal**, oherwydd bod angen eu paratoi erbyn mis Mawrth 2020. Maent yn ganolog er mwyn cyflawni diben cyffredinol CNC ac maent yn gyfle a fydd yn eich galluogi i gynllunio, i flaenoriaethu ac i sbarduno camau gweithredu a fydd yn sicrhau'r canlyniadau mwyaf buddiol i Gymru. Mae eleni hefyd yn hollbwysig ar gyfer paratoi'r ail **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** sydd i'w gyhoeddi yn ystod 2020, a hefyd yr adroddiad interim sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r ddau adroddiad hyn yn ganolog i'r rôl sydd gan CNC o ran arwain gwaith i annog a helpu'r gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a rhanddeiliaid ehangach i weithredu.

Yn ogystal â'r rolau a'r cyfrifoldebau cyffredinol uchod, mae yna hefyd flaenoriaethau eraill y mae'n briodol eu hamlinellu ar wahân.

- ***Paratoi ar gyfer ymadael â'r UE***

Bydd y gwaith i ymdopi â Brexit yn cael effaith drom ar CNC, yn enwedig o ran cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio rheoleiddio. Bydd angen i'ch timau chi gynnig cyngor a rhoi cymorth rheoleiddio i lawer o'ch rhanddeiliaid, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, roi systemau newydd ar waith er mwyn cyflawni'r dyletswyddau ychwanegol a fydd gennych. I'r perwyl hwnnw, rydych wedi cael cyllid ychwanegol er mwyn caniatáu ichi reoli ac uwchraddio system TG at ddibenion trwyddedu. Fodd bynnag, os na lwyddir i sicrhau cytundeb ar Brexit, rwyf yn cydnabod y gallai fod yn rhaid ichi roi blaenoriaeth i reoli digwyddiadau ac y gallai hynny effeithio ar ba mor gydnerth fydd CNC. Bydd gofyn ichi weithio gyda fy swyddogion i ailasesu'ch blaenoriaethau os bydd sefyllfa o'r fath yn codi.

- ***Ynni Adnewyddadwy – cynhyrchu a buddsoddi mewn technoleg***

Dylai CNC barhau i gynnig cymorth inni fedru cyrraedd targedau yr wyf wedi'u pennu ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys edrych ar amryfal gyfleoedd i sicrhau mwy o berchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni ac ar asedau storio, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng risg a budd. Dylai CNC hefyd fynd ati mewn da bryd i gynghori ar geisiadau'n ymwneud ag ynni a, phan fo hynny'n briodol, i roi cydsyniad ar eu cyfer. Fel y llwyddwyd i'w wneud yn achos ynni dŵr, dylai'r cyngor hwn fod yn gymesur â'r effaith bosibl (a rhoi arweiniad a chymorth clir a diweddar i ymgeiswyr). Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos trwyddedu morol o gofio'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan y Prif Weinidog yn yr Uwchgynhadledd Forol ym mis Ionawr 2019.

Rwyf yn awyddus i sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a fydd yn codi drwy helpu gyda'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Morol a Strategaeth Forol y DU, gan ddefnyddio'r dull seiliedig ar ecosystemau. Mae'ch arbenigwyr technegol chi yn allweddol er mwyn helpu'r llywodraeth i wireddu'r dyhead hwn. Hoffwn gael eich cyngor hefyd ar ddatblygu polisi ynni ehangach, a hynny yng nghyd-destun Cymru ac yng nghyd-destun y DU.

- ***Cael yr effaith fwyaf bosibl ar atal llifogydd, addasu arfordirol a'r newid yn yr hinsawdd***

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati eleni i ymgynghori ar ein Strategaeth Genedlaethol newydd ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'r ddogfen statudol hon wedi elwa ar gydweithio â CNC wrth iddi gael ei datblygu ac mae'n nodi mesurau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig.

Dros y flwyddyn nesaf, rwyf yn disgwyl gweld rhagor o welliannau o ran helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am lifogydd, gan gynnwys cyhoeddi mapiau newydd ar berygl llifogydd a fydd yn helpu i wireddu manteision ein buddsoddiad. Mae'n hanfodol eich bod yn cael y gwerth gorau o gynlluniau, felly rwyf am weld CNC yn chwilio am gyllid partneriaeth os bydd hynny o fudd i fusnesau ac i seilwaith, ac rwyf yn awyddus iddo hefyd roi mwy o ystyriaeth i weithio ar sail dalgylchoedd ehangach. Bydd swyddogion yn ysgrifennu atoch ar wahân am y disgwyliadau o ran gwariant ar eich Cymorth Grant Rheoli Perygl Llifogydd.

- ***Rheoli, rheoleiddio a chreu coetir***

Mae gan CNC gyfrifoldebau pwysig o ran rheoli, rheoleiddio a chreu coetiroedd yng Nghymru, gan gynnwys rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'ch staff i ddatblygu canllawiau a fydd o gymorth i greu rhagor o goetir ledled Cymru. Dylai'ch staff hefyd weithio gyda fy swyddogion i ddatblygu'r weledigaeth a'r cynlluniau ar gyfer gwireddu ymrwymiad y Prif Weinidog i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru.

- ***Gwastraff***

Hoffwn ichi barhau i weithio gydag Awdurdod Refeniw Cymru yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ar drethu gwastraff a waredir heb awdurdod, a darparu'r wybodaeth a'r data y mae eu hangen ar yr Awdurdod Refeniw i gyflawni ei brif swyddogaethau.

Mae'n bwysig bod CNC yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei nod strategol o ofalu nad yw Cymru yn dioddef y niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan dipio anghyfreithlon. Er mwyn helpu i gyrraedd y nod hwnnw, mae angen iddo barhau i ymrwymo i roi'r cymorth a'r adnoddau priodol i raglen Taclo Tipio Cymru. Bydd gofyn ichi barhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i'w hannog i gasglu data mewn ffordd effeithiol, i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi camau gorfodi ac i fynd ati'n rheolaidd i gyfathrebu â rhanddeiliaid.

Rwyf hefyd yn disgwyl i CNC barhau i roi cymorth a chynghor i awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd sydd arnynt i fynd i'r afael â thir halogedig.

- ***Brexit a'n Tir***

Bydd gweithredu *Brexit a'n Tir*, y rhaglen ar gyfer rheoli tir Cymru yn y dyfodol, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru drwy gydol tymor y Llywodraeth hon ac mae yna sawl maes lle gallwch gynnig cymorth inni. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i arbenigwyr technegol CNC weithio gyda fy swyddogion ac i gyfrannu at ddatblygu cynigion, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau ecosystemau, nwyddau cyhoeddus a threfn reoleiddio ddiwygiedig. Bydd Datganiadau Ardal yn cael eu defnyddio wrth dargedu a blaenoriaethu ardaloedd gofodol yn y dyfodol ac rydym, felly, yn disgwyl iddynt gael eu datblygu mewn ffordd a fydd yn creu sylfaen ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae angen hefyd i CNC ystyried sut y bydd yn mynd i'r afael â'r ffaith y bydd mwy o ofynion arno o ran rhoi cynghor ac o ran llywodraethu yn sgil y rhaglen hon, er enghraifft, y cynnydd posibl yn nifer y ceisiadau i blannu coed. Mae'r holl faterion hyn yn rhai cymhleth a bydd gofyn mynd ati ar y cyd â swyddogion LIC i ystyried y manylion.

- ***Llygredd amaethyddol a gorfodi***

Dylai CNC barhau i helpu i ddatblygu cyfres o fesurau i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Dylai hynny gynnwys cyfrannu at ddatblygu trefn reoleiddio a fydd yn sicrhau bod mynediad i'r farchnad yn parhau, a fydd yn sail i gynlluniau rheoli tir yn y dyfodol, ac a fydd yn sicrhau gwelliant o ran trosglwyddo gwybodaeth ac o ran mentrau gwirfoddol. Bydd angen i'r drefn reoleiddio gael ei gorfodi mewn ffordd effeithiol a chadarn er mwyn sicrhau lefel uchel o gydymffurfio.

- ***Bil Aer Glân Newydd***

Dylai CNC helpu i ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Aer Glân i Gymru. Dylai'r gwaith hwnnw gynnwys nodi opsiynau ac atebion ar gyfer mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd cenedlaethol, megis ansawdd aer a llygredd sŵn. O dan y rhaglen, bydd gan eich staff rôl allweddol i'w chwarae o ran datblygu a gweithredu'r Cynllun Aer Glân i Gymru ac, o bosibl, Bil Aer Glân i Gymru. Rhaid i CNC ofalu bod ganddo'r cyfarpar, y gweithdrefnau a'r adnoddau y mae eu hangen arno er mwyn iddo fedru ymateb yn effeithiol os bydd unrhyw argyfwng o ran ansawdd aer.

- ***Cefnogi mesurau i greu mannau gwyrdd hygyrch lleol***

Mae gan CNC gyfrifoldebau pwysig eisoes o ran mynediad cyhoeddus a hamdden awyr agored yng Nghymru, gan gynnwys rôl allweddol o ran rheoli Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru. Yn unol â'r cyfrifoldebau hyn, dylai CNC gefnogi mesurau i greu mannau gwyrdd hygyrch lleol.

Rwyf yn cydnabod bod heriau mawr wedi wynebu CNC yn y gorffennol agos. Mae'n bwysig bod CNC yn parhau i adeiladu ar y camau y mae wedi bod yn eu cymryd i ymateb i'r heriau mawr y mae wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf ym maes llywodraethu. Rwyf yn siŵr y bydd eich penodiad chi a'r Bwrdd newydd, ynghyd â newidiadau i'r strwythur rheoli, yn golygu y bydd y sefydliad yn gallu symud ymlaen mewn ffordd bositif, gan lywodraethu'n gadarn a meithrin cysylltiadau da gyda'r staff.

Bydd angen ichi wneud hyn ar yr un pryd â chyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen, gan ymateb yn benodol i'r rheini a nodwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn adroddiad Grant Thornton.


Gwn eich bod chi, y Bwrdd a'r tîm gweithredol yn gweithio'n galed i arwain ac i gynnig arweiniad, gan sicrhau bod gan y staff yr adnoddau priodol, eu bod yn frwdfrydig, a bod ganddynt ymdeimlad cyffredin o ddiben, cenhadaeth ac ymrwymiad. Bydd hyn yn cynnwys rhoi rhaglen cynllunio'r sefydliad ar waith.

Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn mynd ati i drafod yn eang â'r cyhoedd pan fo materion sensitif yn dod i'r amlwg, gan ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol. Wrth wneud hynny, dylech ystyried y gwersi a ddysgwyd ar ôl imi anfon llythyr Cyfarwyddyd atoch ar 10 Hydref 2018.

Mae'r Adolygiad o Gyrrff Cyhoeddus yn golygu bod angen mwy o atebolrwydd mewn cyrrff a noddir. Mae swyddogion yn gweithio gyda'ch staff i ddiweddarau'r Fframwaith Llywodraethu er mwyn ichi fedru rhoi cyfrifoldebau dirprwyedig newydd yn eu lle. Bydd gwaith yn mynd rhagddo hefyd gyda'r Uned Gyrrff Cyhoeddus er mwyn caniatáu ichi weithio'n agosach gyda chyrrff eraill a noddir er mwyn ichi fedru rhannu a dysgu.

Eir ati yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn i nodi'r cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud ag adnoddau naturiol yng Nghymru ar gyfer 2019-20. Mae'r hinsawdd ariannol yn parhau'n heriol yn 2019-20. Bydd angen ichi wneud penderfyniadau anodd am eich gweithgareddau, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ichi yn y ffordd orau bosibl. Rwyf, felly, am ichi sicrhau eich bod yn parhau i drafod y penderfyniadau hyn yn llawn gyda fy swyddogion, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwneud ar sail yr wybodaeth a fydd ar gael am waith cynllunio Llywodraeth Cymru at y dyfodol.

Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio â chi ag ymdeimlad cyffredin o ddiben ac ymrwymiad. Rwyf yn awyddus i gefnogi'r Bwrdd a'r Prif Weithredwyr wrth iddynt barhau i gynnig arweinyddiaeth i'r sefydliad, er mwyn iddo gyflawni rôl graidd CNC, yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan fynd ati ar yr un pryd i adeiladu ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud eisoes er mwyn datblygu CNC ymhellach.

Regards  


**Lesley Griffiths AC/AM**  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Atodiad 1****CYFOETH NATURIOL CYMRU****Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud ag  
adnoddau naturiol yng Nghymru: 2019-20****Cymorth Grant****£000oedd**

<b>Cyfanswm y Cymorth Grant</b>	
<b>Nad yw'n ymwneud â llifogydd</b>	<b>5.825</b>
Cyfalaf	<b>56.952</b>
Refeniw	
<b>Rheoli Perygl Llifogydd</b>	
Cyfalaf	<b>12.700</b>
Refeniw	<b>19.750</b>